# 4.0 Gwirfoddolwyr

## Treuliau Gwirfoddolwyr

## Trosolwg


1. Cyflwyniad
2. Treuliau, Treth a Budd-daliadau
3. Polisi Treuliau
4. Gwybodaeth Bellach


## Cyflwyniad

Mae ad-dalu treuliau yn fater cyfle cyfartal. Darganfu ymchwil i rwystrau posibl at wirfoddoli mai'r diffyg talu am dreuliau oedd y ffactor mwyaf a oedd yn atal pobl rhag cymryd rhan.

**Mae gwirfoddolwyr yn rhoi eu hamser o'u gwirfodd – rhodd sydd â gwerth ariannol sylweddol**.



Llun: Cyfrifo treuliau gwirfoddolwyr

Ni ddylid disgwyl iddynt roi arian hefyd; nid yw pawb mewn sefyllfa i allu gwneud hynny. Mae peidio â thalu treuliau i bob pwrpas yn eithrio pawb na allant 'fforddio' gwirfoddoli gyda'ch mudiad.

Dylid cynnig treuliau i wirfoddolwyr, hyd yn oed os ydyn nhw'n dewis gwrthod eu derbyn, a dylai'r gweithdrefnau ar gyfer hawlio treuliau fod yn ddidrafferth.

# Treuliau, Treth a Budd-daliadau

Mae **Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi** a'r **Adran Gwaith a Phensiynau** yn cydnabod yr isod fel treuliau dilys i wirfoddolwyr:

- Costau teithio yn ôl ac ymlaen i'r man lle mae'r gwirfoddoli'n digwydd
- Costau teithio yn ystod y gwaith gwirfoddoli
- Costau prydau bwyd yn ystod y gwaith gwirfoddoli
- Costau post a ffôn perthnasol
- Costau gofal plant a dibynyddion eraill yn ystod y cyfnod gwirfoddoli
- Costau dillad arbennig sydd eu hangen ar gyfer y gwaith gwirfoddoli

Dylai'r treuliau a delir i wirfoddolwyr fod yr union gostau sy'n ddyledus iddynt, gyda chefnogaeth derbynebau lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Dylai taliadau milltiroedd fod ar gyfradd 'resymol' - er enghraifft, o fewn terfynau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Mae'r rhain wedi'u gosod ar lefel sy'n ystyried dibrisiant a chostau rhedeg eraill, yn ogystal â thanwydd.

## Cyfraddau milltiroedd cymeradwy Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi

| | |
|---|---|
| **Ceir a Faniau*** | 45c y filltir (am y 10,000 milltir gyntaf)<br>25c y filltir (dros 10,000 o filltiroedd)<br><br>*Mae 5c ychwanegol y teithiwr yn dderbyniol |
| **Beiciau Modur** | 24c y filltir |
| **Beiciau** | 20c y filltir |

Dylid darparu derbynebau, tocynnau trên neu fws fel tystiolaeth o wariant. Mae rhai mudiadau'n diffinio terfyn daearyddol / pellter neu uchafswm gwerth yr ad-delir treuliau amdano. Fe'ch anogir i edrych ar wefan Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi am y cyfraddau cyfredol.

**Mae'n bosibl i wirfoddolwyr gael eu talu o flaen llaw am wariant a ragwelir, cyhyd â bod tystiolaeth briodol o wariant yn dilyn.**
Er enghraifft, os yw gwirfoddolwr yn talu £20 y mis i deithio ar fws yn ôl ac ymlaen i'w leoliad gwirfoddoli, mae'n bosibl talu £20 i'r gwirfoddolwr ar ddechrau'r mis fel nad yw'n cael ei adael allan o boced trwy orfod hawlio'r treuliau hynny'n ôl yn ddiweddarach.

Nid yw hynny'n newid y ffaith mai treuliau dilys yn unig a fydd yn cael eu had-dalu, heb effeithio ar sefyllfa budd-daliadau'r gwirfoddolwr.

Bydd angen yr un dystiolaeth, er enghraifft derbynebau, i ddangos sut gwariwyd yr arian. Ni ddylid rhoi taliadau cyfradd sefydlog i wirfoddolwyr i dalu eu treuliau e.e. lwfans cinio, gan fod yn rhaid i'r treuliau fod ar gyfer gwariant gwirioneddol allan o boced. Peidiwch â chael eich temtio i dalu mwy na'r hyn sy'n ddyledus mewn gwirionedd. Gallai hynny beryglu unrhyw daliadau budd-daliadau y mae gwirfoddolwyr yn eu derbyn, gan arwain at gosbau budd-daliadau o bosibl.

Gellir ystyried taliadau treuliau sy'n fwy na gwir gostau gwirfoddolwyr fel taliad yn gyfnewid am 'waith' y maen nhw wedi'i wneud. Gellid ystyried hyn (gan dribiwnlys neu gorff tebyg), fel perthynas gytundebol, gan roi hawliau cyflogaeth i'r gwirfoddolwyr - gan gynnwys yr isafswm cyflog cenedlaethol.

Mae rhai mudiadau'n talu gwirfoddolwyr fel 'honoraria'. Tra bod **Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi** yn derbyn taliadau sengl go iawn fel rhoddion di-dreth, mae'n debygol y bydd taliadau o'r fath yn effeithio ar fudd-daliadau. Os yw'r honorariwm i'w ddisgwyl mewn unrhyw ffordd, gellir ei ystyried hefyd yn daliad am wasanaethau, gan effeithio ar statws cyfreithiol y gwirfoddolwyr a rhoi'r mudiad mewn sefyllfa fregus. Dylai honorariwm fod yn daliad sengl go iawn (fel 'diolch'). Os yw'r taliad i'w ddisgwyl, neu'n cael ei roi yn rheolaidd, byddai'n cael ei drin fel unrhyw incwm trethadwy arall.

## Treuliau a Rhodd Cymorth

Os yw gwirfoddolwr yn dewis peidio â hawlio ei gostau, ni ellir hawlio Rhodd Cymorth ar y swm hwn. Fodd bynnag, gall y gwirfoddolwr hawlio treuliau a dewis ad-dalu hwn fel Rhodd Cymorth.

Bydd rheolau arferol Rhodd Cymorth yn berthnasol a dylai fod tystiolaeth o drafodiad clir yn dangos rhodd ariannol gan y gwirfoddolwr i'r mudiad.

**Dolen Allanol**

Gallwch ddod o hyd i arweiniad ar hawlio Rhodd Cymorth fel elusen ar wefan Llywodraeth y DU

Llywodraeth y DU - Rheolau Rhodd Cymorth (Saesneg yn unig)

# Polisi Treuliau

Bydd cael polisi treuliau ysgrifenedig yn sicrhau bod eich gwirfoddolwyr yn gwybod pa dreuliau sydd ganddynt hawl iddynt a'r gweithdrefnau ar gyfer eu hawlio.

Efallai y byddwch yn dymuno rhoi terfynau synhwyrol ar rai treuliau er mwyn atal camddealltwriaethau, neu chwithdod, os bydd unigolyn yn cyflwyno derbynebau gwariant na allwch eu fforddio. Bydd eich terfyn yn dibynnu ar gostau lleol a'ch sefyllfa ariannol. Dylai fod yn ddigon i alluogi gwirfoddolwyr i brynu byrbryd neu ddiod gynnes - yn sicr, mae hyd at £5 yn rhesymol.

Yn ogystal, mae'n rhesymol gofyn i'ch gwirfoddolwyr ddefnyddio'r math rhataf o drafnidiaeth gyhoeddus resymol. Efallai bydd angen i rai gwirfoddolwyr ddefnyddio tacsis - oherwydd anabledd, er enghraifft, neu er mwyn hwyluso presenoldeb gweithiwr cymorth neu ofalwr. Mae'n werth ystyried anghenion unigol fel y rhain wrth gyfrifo eich cyllid ac wrth ystyried eich polisi treuliau.

Yn gyffredinol, fe'ch cynghorir i anelu at gydraddoldeb rhwng cyfraddau treuliau staff a gwirfoddolwyr. Ychydig o gyfiawnhad fyddai, er enghraifft, dros fabwysiadu cyfraddau milltiroedd gwahanol ar gyfer staff a gwirfoddolwyr yn yr un mudiad ac mae'n adlewyrchu sut mae gwirfoddolwyr yn cael eu gwerthfawrogi gan y mudiad.

Gall polisi treuliau gynnwys:

- Yr union dreuliau y gellir eu hawlio, a'r cyfraddau.
- Beth y gellir ac na ellir ei hawlio ar ran cleient lle mae'r gwirfoddoli'n cynnwys cyfeillio, ymweliadau neu deithiau sy'n cynnwys gweithgareddau cymdeithasol?
- Y weithdrefn ar gyfer hawlio, hynny yw, pryd, pa ffurflenni a pha dystiolaeth a derbynebau sydd eu hangen er mwyn hawlio.
- Beth fydd yn digwydd ar ôl hawlio treuliau, a'r dull talu - arian parod, siec, trosglwyddiad banc?
- Beth fydd yn digwydd petai unigolyn yn cyflwyno cais am dreuliau twyllodrus?
- Sut byddwch yn cefnogi gwirfoddolwyr sydd angen cymorth i lenwi ffurflenni?

## Gwybodaeth Bellach

**Lleoliadau Gwirfoddoli, Hawliau a Threuliau (Saesneg yn Unig)**
**Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)**
**Ffôn: 020 7712 2171**
www.gov.uk/volunteering/pay-and-expenses

---

**Canllaw Gwirfoddoli (Saesneg yn Unig)**
**DWP / Gwirfoddoli Cymru**
https://wcva.cymru/wp-content/uploads/2020/01/A-guide_to_volunteering-DWP.pdf

---

**Ceisiadau Rhodd Cymorth i Elusennau a Chlybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol (CACSs) (Saesneg yn Unig)**
**Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi**
www.hmrc.gov.uk/charities/gift_aid/rules/vol-expenses.htm

---

**Safon - Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr (Saesneg yn Unig)**
**Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr**
Mae'r Safon Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr yn mynnu y dylai fod polisi eglur ar ad-dalu treuliau allan o boced i wirfoddolwyr sydd wedi'i wreiddio yn ethos y mudiad ac sy'n ystyried sefyllfa ariannol y mudiad.

https://iiv.investinginvolunteers.org.uk/download-the-standard

**Taflenni Gwybodaeth Ychwanegol**
**Cymorth Trydydd Sector Cymru**

4.1.1 Gwirfoddolwyr a'r Gyfraith
4.12 Gwirfoddolwyr a Budd-daliadau Lles

Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Third Sector Support Wales

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â **https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/**

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.